

# RICHARD HUGHES A HANES CYNNAR HUGHES A'I FAB

gan PHILIP HENRY JONES

O BRYD i'w gilydd yn ystod y 1920au byddai trigolion Wrecsam yn gweld Charles Tudor Hughes yn lithro heibio'n ddi-drwst yn ei Rolls Royce; yr unig enghraifft, am wn i, o gyhoeddwr llyfrau Cymraeg a fu'n ddigon llewyrchus i fforddio cyrraedd pinacl uchaf byd moduro. Cynrychiolai rywbeth arall bron yr un mor anarferol, sef llwyddo i gynnal olyniaeth deuluo yn yr un wasg dros dair cenhedlaeth. 'Roedd wedi manteisio ar yr etifeddiaeth sylweddol a dderbyniodd oddi wrth ei dad, Charles Hughes, pan fu hwnnw farw yn 1886. Adeiladodd Charles Hughes yntau ar y sylfeini cedym a osodwyd gan ei dad, Richard Hughes. Dethlir daucanmlwyddiant geni Richard Hughes eleni ac felly mae'n briodol asesu ei gyfraniad i ddatblygiad y wasg. Ceir amlinelliad o'i yrfa yn yr astudiaeth o gwmni Hughes gan T. M. Bassett a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Lyfryddol Cymru yn 1946, ond gellir ychwanegu cryn dipyn at yr hanes a chywirow ambell i lithriad.

Ganed Richard Hughes yn Adwy'r Clawdd ar 4 Mawrth 1794, yn fab i Hugh Hughes, saer gwlad, a'i wraig Mary. Danfonwyd ef a'i frawd iau, John Hughes, i ysgol leol a gychwynwyd yn 1804 gan Thomas Evans, Minera (tad yr argraffydd P. M. Evans, Treffynnon), ac yna fe'i cyflogwyd fel clerck ym manc James Kenrick yn Wrecsam. Bu'r hyfforddiant mewn cadw cyfrifon a dderbyniodd yno yn hynod o werthfawr iddo trwy gydol ei yrfa gan fod argraffu, cyhoeddi, a gwerthu llyfrau yn dibynnu cymaint ar reoli credyd yn llwyddiannus. Yn ystod 1813 aeth i weithio fel cyfrifydd ym melin bapur newydd Edward Boszley (y 'Felin Isaf') ym Mers. Wedi i Boszley farw ddiwedd Mai 1814 bu Richard Hughes a phartner o'r enw Phillips yn gweithio'r felin fel Richard Hughes & Co. Cyn diwedd 1820 (dyddiad traddodiadol sefydlu ei fusnes) 'roedd Hughes wedi cychwyn menter newydd gan agor ystordy papur yn Stryd y Banc, Wrecsam. Fe'i disgrifiwyd fel 'paper dealer' pan gofnodwyd ei briodas ar 10 Tachwedd 1820 yng nghofrestr plwyf Wrecsam ond hwyrach i'w gysylltiad â'r felin bapur barhau am ychydig wedi hynny — fe'i galwyd yn 'paper maker' yn yr hanes o'i briodas yn yr *Oswestry Herald* Mae'n sicr, fodd bynnag, nad oedd yn gweithio'r felin erbyn 1822.

Oherwydd llwyddiant ei fenter bu'n rhaid i Hughes ei symud yn fuan i adeilad mwy ac erbyn 1823 'roedd yn rhentu rhif 2



Llun o Richard Hughes allan o'r gyfrol Byr-goffhad am y diweddgar Mr Richard Hughes . . . gan J. H. Symond, 1871. Yn y llun mae'n dal, yn ei law dde, y sbectol aur a roddwyd iddo gan Ysgol Sul Rhostyllen yn 1862.

Heol yr Eglwys. Er bod Bassett (gan ddilyn Ifano, mae'n debyg) yn dweud iddo ddefnyddio rhif 1 yn ogystal, nid yw hynny'n gywir: Isaac Kirkham, gŵr chwaer ei wraig, oedd â'i siop a'i weithdy crydd yno y pryd hynny. Tua'r un adeg fe ddechreuodd Hughes werthu llyfrau a chylchgronau: fe'i rhestrir fel un o ddosbarthwyr *Goleud Cymru* o Ionawr 1823 ymlaen ac fel un o weithwyr y trydydd argraffiad o *Blodeu-Gerdd Cymry* (sic) Dafydd Jones a gyhoeddwyd gan Edward Carnes yn Nhreffynnon yn yr un flwyddyn.

'Roedd yn gam naturiol i werthwr a rhwymwr llyfrau fynd ati i'w hargraffu. Ond pa bryd y cychwynnodd Hughes? Awgryma Bassett iddo sefydlu ei wasg yn 1823 ond yna mae'n nodi llyfryn 64 tudalen, *Yr Eglwys yn y Ty*, cyfieithiad o bregeth gan Matthew Henry a gyhoeddwyd yn 1829, mewn modd sy'n awgrymu mai hwn oedd yr eitem sylweddol gyntaf a argraffwyd gan y wasg. Yn ôl y ddamcaniaeth hon doedd y wasg yn cynhyrchu dim ond eitemau o fân argraffu rhwng 1823 a 1829, er nad oes yr un enghraifft o'r rhain wedi goroesi. Er bod y syniad fod y wasg yn

canolbwyntio am gryn amser ar fân argraffu yn ddigon rhesymol, mae tystiolaeth gref o blaid dyddiad sefydlu diweddarach na 1823. Mor ddiweddgar â 1826 fe argraffwyd llyfryn bychan (rhagymadrodd i lyfr casglu y *Society for Promoting Religious Knowledge amongst the Inhabitants of the Marches of Wales*) gan John Painter ar ran Richard Hughes. Pe bai gan Hughes ei wasg ei hun yn 1826 ni fuasai'n rhaid iddo droi at wasg Painter. Ar y llaw arall mae ambell i eitem a argraffwyd gan Hughes cyn 1829 wedi dod i'r amlwg erbyn hyn. Y cynharaf o'r rhain a welais yw copi (unigryw?) y Llyfrgell Genedlaethol o'r *Articles of Faith, Signed by the Independent Congregation, Meeting in the Town of Wrexham*, llyfryn 16 tudalen sy'n dwyn y dyddiad 1827. Felly gellid awgrymu mai tua diwedd 1826 neu ddechrau 1827 y sefydlodd Hughes ei wasg.

Gan nad oedd gan Richard Hughes ddim profiad o argraffu bu'n rhaid iddo gyflogi argraffydd i ofalu am ei swyddfa. Mae brawddeg go aneglur yn yr ysgrif goffa iddo yn y *Wrexham Advertiser* yn awgrymu mai dau argraffydd, gyda chymorth prentisiaid, a fu'n gyfrifol am

gynnyrch cynnar y wasg. Ni lwyddwyd hyd yn hyn i ddod o hyd i enwau'r argraffwyr, ond y prentis cyntaf oedd William Bayley a oedd wedi sefydlu ei swyddfa ei hun yn Wrecsam erbyn 1838. Bwriodd dau aelod arall o'r un teulu eu prentisiaeth yn swyddfa Hughes, sef George Bayley (sefydlwr y *Wrexham Advertiser*) a Charles G. Bayley (argraffwyd yng Nghrososwallt). Gellir enwi un aelod arall o staff y swyddfa yn ystod y blynyddoedd cynnar, sef Daniel Jones (1780-1845), cywirwr y wasg. 'Roedd gan Jones gryn brofiad o gywiro proflenni llyfrau Cymraeg yng Nghaer ac yna, am tua ugain mlynedd, yn swyddfa John Painter. Rywbryd wedi marwolaeth Painter yn 1828 fe'i cyflogwyd gan Hughes; ceir tystiolaeth bendant ei fod yn gweithio yn ei swyddfa erbyn Ionawr 1831.

Yr unig dystiolaeth ynglŷn â'r offer a ddefnyddiwyd yw bod Hughes yn galw ei swyddfa yn 'Albion Press' ar eitemau o fân argraffu o 1834 ymlaen a'i fod yn ceisio gwerthu gwasg Albion *Double Crown* yn rhad ddiwedd Mai 1855. Mae'n ddigon tebyg, felly, mai gwasg (neu weisg) haearn a ddefnyddiwyd gan y swyddfa o'i chychwyn. Dengys y llyfrau a'r posteri a argraffwyd yn ystod y 1830au fod gan y swyddfa gryn amrywiaeth o deip o'r cychwyn.

Mae'n amlwg mai menter ategol at brif alwedigaeth Hughes oedd yr argraffu tan ddiwedd y 1840au; ei brif fusnes, fel y dengys ei hysbysebion, oedd gwerthu (a rhwymu) llyfrau, a gwerthu papur. 'Roedd sefydlu a llwyddo i gynnal gwasg newydd mewn tref lle 'roedd eisoes ddwy swyddfa lewyrchus, gwasg teulu Painter a gwasg George Griffiths (a drosglwyddwyd iddo yn 1824 gan Anna Tye, ei fodryb) yn dipyn o gamp. Dengys methiant David Oliver, a sefydlodd ei swyddfa yn Wrecsam yn 1815 ond a giliodd o'r maes yn 1822, pa mor anodd oedd cynnal menter newydd yn wyneb y fath gystadleuaeth.

Fel y mwyafrif o lyfrwerthwyr ac argraffwyr y tu allan i Lundain, canlynai Hughes sawl galwedigaeth er mwyn ychwanegu at ei incwm. Cafodd ei ddaliadau crefyddol gryn ddylanwad ar ei ddewis. Felly, er bod llawer o lyfrwerthwyr yn cynnal lyfrgelloedd cylchynol, ni fentrodd Hughes i'r maes hwn oherwydd, mae'n debyg, ei amharodrwydd i hybu cylchrediad llyfrau ysgafn a bydol. Nid oedd ychwaith yn gwerthu'r meddyginiaethau amheus ar gyfer clefydau gwenerol a ddsberthid gan gymaint o lyfrwerthwyr pryd hynny — 'roedd hyd yn oed gŵr mor